# Dweud eich Dweud!

**Ar y rheolau ar gyfer rheoli Cŵn mewn mannau cyhoeddus yn Rhondda Cynon Taf**

Dewch i siarad RhCT
Let's talk RCT

RHONDDA CYNON TAF

**Rhowch wybod i ni beth yw'ch barn erbyn 18 Awst 2023.**

## Sut mae modd i mi gael dweud fy nweud?

- **Ewch i:** https://www.rctcbc.gov.uk/YmgynghoriadauPresennol am ragor o wybodaeth neu i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.
- **E-bost:** ymgynghori@rctcbc.gov.uk
- **Ffôn:** 01443 425014
- **Trwy lythyr:** Rhadbost RSBU-HJUK-LSSS, Carfan Materion Ymchwil ac Ymgynghori, Cysylltiadau Cyhoeddus a Strategaeth, Y Pafiliynau, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX

## Beth mae'r Cyngor yn dymuno ei wneud?

Yn 2017 fe wnaethon ni gyflwyno rheolau newydd ar gyfer rheoli cŵn ar dir cyhoeddus yn Rhondda Cynon Taf o dan yr hyn a elwir yn Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO). Ar ôl cynnal ymgynghoriad, diweddarodd y Cyngor y PSPO yn 2020. Rhaid adnewyddu'r gorchmynion bob 3 blynedd, felly rydyn ni'n holi am farn preswylwyr cyn gwneud hynny ar 1 Hydref 2023.

## Pam mae'r Cyngor yn gwneud hyn?

Mae baw ci yn beth annifyr iawn i edrych arno ac mae modd iddo arwain at salwch difrifol mewn pobl. Mae modd atal y clefyd yma os caiff baw ci ei glirio ar unwaith. Mae angen hefyd i rai o'r meysydd chwarae gael eu harchwilio'n eithaf aml ar gyfer baw cŵn cyn bod modd eu defnyddio.

Dangosodd adroddiad gan Cadwch Gymru'n Daclus o'r enw 'An Analysis of Local Environmental Quality in RCT 2022-23' bod baw cŵn yn broblem barhaus ar strydoedd RhCT (10.9%) o gymharu â'r cyfnod pan gafodd y PSPO ei ddiweddaru ddiwethaf yn 2020. Mae'n werth nodi bod y cofnod o 2021-22 yn dangos bod presenoldeb baw cŵn yn 8.9% felly mae'r adroddiad mwyaf diweddar yn dangos cynnydd. Cyn cyflwyno'r PSPO yn 2017 roedd y ffigur yma tua 18% felly mae cyflwyno'r PSPO yn 2017 wedi arwain at ostyngiad o ran presenoldeb baw cŵn yn strydoedd RhCT ond mae'r broblem yn parhau.

Serch hynny, er gwaethaf cyflwyno'r Gorchmynion yn 2017 a'r estyniad yn 2020, mae nifer fach o berchenogion cŵn sydd ddim yn glanhau ar ôl eu cŵn neu sydd ddim yn eu cadw o dan reolaeth.

## Beth mae hyn yn ei olygu?

Mae'r rheolau yn y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod pobl yn cadw eu cŵn dan reolaeth yn Rhondda Cynon Taf.

Maen nhw'n ein helpu ni i reoli'r pethau niweidiol y gall perchnogion cŵn anghyfrifol eu gwneud ac yn caniatáu i berchnogion cŵn cyfrifol barhau i gerdded eu cŵn heb derfynau diangen.

# Dweud eich Dweud

**Ar y rheolau ar gyfer rheoli Cŵn mewn mannau cyhoeddus yn Rhondda Cynon Taf**

Dewch i siarad RhCT
Let's talk RCT

RHONDDA CYNON TAF

## Beth yw'r rheolau?

Roedd y Gorchymyn gwreiddiol, yr hoffen ni ei ymestyn, yn seiliedig ar y rheolau canlynol yn cael eu gorfodi:

- **RHAID** i berchnogion cŵn godi baw cŵn ar unwaith a chael gwared ar y baw mewn modd addas.
- **RHAID** i berchnogion cŵn gario bagiau, neu ryw ddull addas arall, er mwyn cael gwared ar y baw ar bob adeg.
- **RHAID** i berchnogion cŵn ddilyn cyfarwyddyd Swyddog Awdurdodedig i roi ci ar dennyn..
- Mae cŵn wedi eu **GWAHARDD** o bob ysgol, man chwarae i blant, a chae chwaraeon sydd wedi'i farcio sy'n cael eu cadw a'u cynnal gan y Cyngor.
- **RHAID** cadw cŵn ar dennyn ar bob adeg yn yr holl fynwentydd sy'n cael eu cynnal a'u cadw gan y Cyngor.

Mae modd i chi weld rheolau 2020 yma - Cŵn yn Baeddu – Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus yn Rhondda Cynon Taf

## Beth os dydy pobl ddim yn dilyn y rheolau?

Byddwn ni'n codi dirwy o £100 ar bobl os dydyn nhw ddim yn dilyn y rheolau. Dyma'r swm mwyaf o ddirwy caiff y Cyngor ei godi.

## Pa fannau sydd dan sylw?

Mae'r mannau cyhoeddus sy'n cael eu cynnwys i'w gweld ar nifer o fapiau - cliciwch ar y ddolen isod i weld y rhain:

https://www.rctcbc.gov.uk/CwnynBaedduGorchymynDiogeluMannauCyhoeddus

## Parc Aberdâr

Yn ogystal â'r rheolau uchod ceir rheolau ar wahân ar gyfer Parc Cyhoeddus Aberdâr.

Ym Mharc Cyhoeddus Aberdâr, rhaid cadw eich ci ar dennyn drwy'r amser.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ar ôl yr ymgynghoriad yma, byddwn ni'n ysgrifennu adroddiad am yr hyn a ddywedodd pobl. Bydd Aelodau Cabinet y Cyngor ac Uwch Swyddogion wedyn yn ystyried hyn ac yn gwneud penderfyniad ynghylch beth ddylai'r rheolau fod ar gyfer y 3 blynedd nesaf.